# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 24-08 (p1): 15 Hydref 2008**

## Adran yr Economi a Thrafnidiaeth

## Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2009-10 a 2010-11

### Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Menter a Dysgu

### 15 Hydref 2008

### Cyflwyniad

Yn ogystal â chynnig gwybodaeth gefndirol, mae'r papur hwn yn briffio'r Pwyllgor ynghylch cynigion cyllideb Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (AETh) fel y'u hamlinellwyd yng nghyhoeddiad cyllideb ddrafft y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar 7 Hydref 2008.

### Cefndir

Yng nghyfarfod 7 Gorffennaf 2008, cymeradwyodd y Cabinet y dyraniadau lefel uchel ar gyfer cyllideb ddrafft 2009-10 ynghyd â'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2010-11. Mae'r setliad yn adlewyrchu trafodaethau helaeth rhwng Gweinidogion a swyddogion ynghylch blaenoriaethau AETh, a rhoddwyd sylw penodol i ymrwymiadau cyllido "Cymru'n Un" wrth bennu'r setliad.

Mae'r setliad wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddyrannu gwariant refeniw ychwanegol, gan fod y cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd yn gyffredinol yn mynd i gael ei bennu gan y Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol ochr yn ochr â dyraniad cyfalaf yr Adran a chyllid Ewropeaidd lle y bo'n briodol.

Mae cynigion cyllideb AETh yn cynnwys dyraniad Refeniw ychwanegol o £18 miliwn ym mhob un o'r blynyddoedd 2009-10 a 2010-11 o ddyraniadau'r gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd yn Ionawr 2008 ar ôl cwblhau proses gyllidebu'r llynedd.

DS: Mae'r cyllidebau a gyhoeddwyd yn dangos cynnydd o £17.650 miliwn ac maent hefyd yn adlewyrchu'r ffaith fod £350,000 o gyllid wedi'i drosglwyddo i APADGOS oherwydd cyfrifoldeb yr adran honno am y rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth a Buddsoddwyr mewn Pobl". "

Mae'r tabl ariannol cryno canlynol yn amlygu'r effaith gyffredinol ar y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), cyllideb sylfaenol AETh.

### Tabl Ariannol Cryno:

| | **Cyllidebau Diwygiedig 2008-09<br>£,000** | **Cynlluniau Dangosol 2009-10<br>£,000** | **Cynlluniau Newydd 2009-10<br>£,000** | **Cynlluniau Newydd<br>2010-11<br>£,000** |
|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | **692,285** | **704,194** | **721,844** | **732,251** |
| **Cyfalaf** | **468,495** | **467,405** | **467,405** | **468,495** |
| **Cyfanswm y DEL** | **1,160,780** | **1,171,599** | **1,189,249** | **1,200,746** |

### Trosolwg a Datganiad o Flaenoriaethau

Uchelgais cyffredinol AETh yw cyflawni'r rhaglen flaengar a gyflwynwyd yn 'Cymru'n Un', er mwyn sicrhau bod yr economi'n parhau i arallgyfeirio ac i fod yn gadarn ac yn gystadleuol. Mae AETh yn gyfrifol am gyflawni 28 o ymrwymiadau 'Cymru'n Un', ac mae'n cyfrannu at gyflawni nifer o'r ymrwymiadau eraill.

Mae'r weledigaeth yn cwmpasu'r ddau beth yma – creu'r amodau ar gyfer arloesedd a thwf i ychwanegu gwerth yn yr economi a sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gallu cael swyddi a dod yn fwy cyfoethog trwy ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau i dyfu.

## Mae gan yr Adran bedair blaenoriaeth allweddol:

**Trafnidiaeth –** canolbwyntio ar y pum prif faes a nodwyd yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 'Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl': lleihau allyriadau nwyon ty gwydr ac effeithiau amgylcheddol eraill; gwella trafnidiaeth gyhoeddus a sicrhau mwy o integreiddio rhwng y dulliau teithio; gwella'r cysylltiadau rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol ledled Cymru a chysylltiadau Cymru gyfan strategol bwysig; gwella cysylltedd rhyngwladol; a chynyddu diogelwch personol a diogelwch eiddo.

**Cymorth i fusnesau –** ar sail y cyngor a gafwyd gan Grwp Cynghori'r Gweinidog rhoddir cymorth fesul sector gan ganolbwyntio ar yr 14 sector â'r rhagolygon twf gorau yng Nghymru. Yn ganolog i'r dull hwn mae Cymorth Hyblyg i Fusnes, sy'n gweddnewid y ffordd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â busnesau. Mae'r Gronfa Fuddsoddi Sengl yn sylfaen iddo, a bydd yn dwyn ynghyd yr ystod lawn o gymorth sydd ar gael i fusnesau.

**Ymchwil a masnacheiddio –** mynd ati ar y cyd ag APADGOS i weithredu argymhellion adolygiad Gibson, trwy greu perthnasoedd gwaith agosach â busnesau a phrifysgolion er mwyn cynyddu'r gwaith ymchwil a datblygu sy'n digwydd yng Nghymru a sicrhau'r manteision masnachol gorau posibl. Rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar fuddsoddi mewn partneriaethau â chorfforaethau a phrifysgolion mawr er mwyn ysgogi arloesi ar draws y prif sectorau a thu hwnt.

**Adfywio ac anweithgarwch economaidd –** trwy raglenni mwy strategol a chydgysylltiedig sy'n cynnwys sefydliadau o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, ac sy'n creu cysylltiadau rhwng meysydd lle mae angen dybryd a meysydd lle mae cyfleoedd arbennig. Bydd partneriaethau yn edrych yn gyfannol ar feysydd megis cyflogaeth, sgiliau, mentrau cymdeithasol, datblygu cymunedol a thai ac yn sicrhau canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gwirioneddol. Bydd y ffyrdd newydd hyn o weithio hefyd yn gymorth i fynd i'r afael â materion sydd o bwys penodol i grwpiau megis pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau Cymraeg eu hiaith.

Mae AETh yn gweithio ar draws portffolios i sicrhau bod camau gweithredu a buddsoddiadau yn cael eu cydgysylltu. Ni ddaw llwyddiant awtomatig o adnoddau AETh yn unig; i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol, rhaid i'r sector cyhoeddus weithio ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol.

## Meysydd y Rhaglenni Gwariant

## Cyffredinol

Wrth ystyried cynigion cyllideb ddrafft 2009-10, gwnaeth AETh rai mân newidiadau i strwythur a chyflwyniad y tablau a oedd wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â Meysydd y Rhaglenni Gwariant a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb.

I sicrhau cymhariaeth bwrpasol mae'r ffigurau ar gyfer 2008-09 yn y tablau canlynol wedi'u hailnodi gan ddefnyddio'r strwythur diwygiedig. Caiff y diwygiad hwn ei ffurfioli gan gyllideb atodol yn ystod y flwyddyn.

## 1. Cymorth Hyblyg i Fusnes

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Hyblyg i Fusnes** | **144,302** | **151,801** | **145,469** | **144,134** |

Yn ogystal â helpu busnesau i gychwyn a thyfu, nod Cymorth Hyblyg i Fusnes yw gwella cystadleurwydd busnesau Cymru trwy foderneiddio a chynnig cymorth sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid. Bydd yn cynyddu cymaint â phosibl y gwaith o ddatblygu a masnacheiddio cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd a gwell, ac yn sicrhau bod technolegau newydd yn cael eu mabwysiadu er mwyn cynyddu gwariant busnesau ar Ymchwil a Datblygu yng Nghymru a chael gwell cysylltiadau â'r Sector Addysg Uwch.

Bydd ein cymorth hefyd yn meithrin diwylliant o allforio yn amgylchedd busnes Cymru ac yn annog mewnfuddsoddi gan gwmnïau rhyngwladol sy'n chwilio am ganolfan i'w gweithrediadau yn Ewrop neu'r DU.

Dyrannwyd £3 miliwn ychwanegol yng nghyllideb ddrafft 2009-10 ar gyfer prosiectau ymchwil a masnacheiddio. Symudwyd y canlynol hefyd yn rhan o'r broses ailflaenoriaethu fewnol: £2 filiwn o gostau marchnata i Faes Rhaglenni Gwariant Marchnata a Phrif Ddigwyddiadau; £2 filiwn i Faes Rhaglenni Gwariant Seilwaith Cysylltiedig ag Eiddo ar gyfer ymrwymiadau refeniw eiddo ychwanegol; £2 filiwn ar gyfer ymrwymiadau ychwanegol ym Maes Rhaglenni Gwariant Seilwaith TGCh a Maes Rhaglenni Gwariant Polisi, Datblygu Strategaethau a Gwasanaethau Corfforaethol; a £3.3 miliwn i gyllido ymrwymiadau refeniw o fewn Trafnidiaeth, yn ymwneud yn bennaf â chostau cynyddol y cymorth i reilffyrdd.

**2. S**

**eilwaith Cysylltiedig ag Eiddo**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Property Related Infrastructure** | **63,793** | **61,525** | **63,525** | **63,377** |

Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn cyfrannu at ymrwymiadau Cymru'n Un drwy hybu hinsawdd sy'n helpu busnesau i dyfu. Gwneir hyn drwy sicrhau bod digon o safleoedd ac adeiladau priodol ar gael sy'n galluogi busnesau i greu mwy o swyddi a swyddi gwell.

Mae'r arian sy'n cael ei wario yn y maes hwn yn ychwanegu gwerth at gynlluniau adfywio strategol ac yn cynnal blaenoriaethau economaidd ehangach drwy wella seilwaith, cyflogaeth, eiddo a thai fforddiadwy.

Darparwyd £2 filiwn ychwanegol o gyllid refeniw trwy'r ymarfer ailflaenoriaethu er mwyn cydnabod ymrwymiadau ychwanegol sy'n codi o ddeddfwriaeth newydd yn gysylltiedig ag ardrethi eiddo gwag, taliadau rhent ychwanegol Partneriaethau Strategol Diwydiannol Cymru, a thaliadau ychwanegol ar gyfer cynnal a chadw a diogelu eiddo.

## 3. Adfywio Strategol

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Adfywio Strategol** | **65,800** | **66,124** | **65,969** | **65,990** |

Bydd canolbwynt strategol ar gyfer gweithgareddau adfywio ledled Cymru yn sicrhau bod y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn ailadrodd arferion gorau Rhaglen Blaenau'r Cymoedd a Mentrau Môn a Menai. Bydd y rhaglenni hyn ac eraill hefyd yn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd.

Yn ogystal â mentrau adfywio mawr, mae'r Maes Rhaglenni Gwariant yn ymdrin â gweithgareddau adfywio trefol a gwledig penodol, a gwelliannau amgylcheddol i safleoedd ac adeiladau. Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ymrwymiad Cymru'n Un i roi strategaeth marchnad lafur ar waith gyda'r nod hirdymor o sicrhau cyflogaeth lawn ar gyfradd o 80%.

Yn rhan o broses ailflaenoriaethu'r gyllideb trosglwyddwyd £155,000 o'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn er mwyn cyfrannu at feysydd eraill yn y Prif Grwp Gwariant lle mae pwysau ar refeniw, er enghraifft, cymorth i'r rhaglen trafnidiaeth leol yn y Maes Rhaglenni Gwariant Gwella Integreiddio a Darparu Trafnidiaeth Leol.

## 4. Gweithrediadau Seilwaith TGCh

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithrediadau Seilwaith TGCh** | **16,533** | **4,771** | **5,556** | **5,558** |

Bydd y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn cyllido dau brosiect seilwaith TGCh – Cymorth Band Eang Arloesol Rhanbarthol sy'n darparu band eang sylfaenol (cyflymder o 512Kbs at y cwsmer) ar gyfer ardaloedd yng Nghymru nad ydynt yn gallu cael gwasanaethau band

eang; a FibreSpeed – rhwydwaith mynediad agored sy'n ceisio gwella argaeledd a fforddiadwyedd gwasanaethau band eang cyflym trwy ddarparu rhwydwaith craidd eang a chystadleuol ledled Cymru.

Darparwyd £785,000 ychwanegol drwy'r ymarfer ailflaenoriaethu ar gyfer prosiect FibreSpeed.

### 5. Marchnata a Phrif Ddigwyddiadau

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Marchnata a Phrif Ddigwyddiadau** | **8,876** | **6,768** | **8,790** | **8,728** |

Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn cyfrannu at ymrwymiadau Cymru'n Un i hybu cyfraniad Cymru at ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol, gan adeiladu ar y cyfleoedd a gynigir gan Gwpan Ryder, i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes i godi proffil rhyngwladol Cymru, ac i ddatblygu a hyrwyddo brand Cymru.

Fel y nodwyd o dan Cymorth Hyblyg i Fusnes, symudwyd £2 filiwn o gostau marchnata i'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn.

### 6. Polisi, Datblygu Strategaethau a Gwasanaethau Corfforaethol

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Policy, Strategy Development & Corporate Services** | **17,470** | **15,432** | **16,377** | **15,766** |

Bydd y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn hybu polisïau a strategaethau i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar economi Cymru a bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at ymrwymiadau Cymru'n Un i fabwysiadu dull Cymru gyfan o sicrhau datblygiad economaidd, gan warantu buddsoddiad ym mhob ardal o

Gymru a chan weithio o fewn fframwaith Cynllun Gofodol Cymru, ac i ddatblygu strategaeth swyddi gwyrdd ar gyfer Cymru gyfan. At hynny, mae Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus yn cynnig un rhwydwaith wedi'i gydgrynhoi ar gyfer Cymru gyfan.

Darparwyd mwy o gyllid trwy ymarfer ailflaenoriaethu'r gyllideb ar gyfer cyfraniad AETh at fenter Her Iechyd Cymru, Datblygu Polisïau ar Strategaethau Sectorau, Cymorth i Fforymau Sectorau, prosiectau Ymchwil a Gwerthuso a chyllid ar gyfer y Panel Cynghorol ar Ymchwil Economaidd.

### 7. Cyllid Ewropeaidd

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid Ewropeaidd** | **2,875** | **1,368** | **1,283** | **1,290** |

Mae hwn yn dangos gweinyddiaeth Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Caiff y rhain eu rheoli gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, sy'n rhan o Adran yr Economi a Thrafnidiaeth.

Mae gostyngiad bach o £85,000 yn y cymorth er mwyn cyfrannu at feysydd eraill yn y Prif Grwp Gwariant lle mae pwysau ar refeniw, er enghraifft, cost gynyddol Cymorth Refeniw Bysiau yn y Maes Rhaglenni Gwariant Gwella Integreiddio a Darparu Trafnidiaeth Leol.

### 8. Cynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd** | **81,857** | **95,990** | **84,879** | **86,121** |

Mae'r gwariant o dan y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn hanfodol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd statudol i reoli, gweithredu a chynnal diogelwch y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd, gan ystyried anghenion a rhwymedigaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.

Mae'r cyllidebau'n cynnwys y rhaglen trwsio ac atgyfnerthu, adnewyddu ffyrdd a phontydd, prynu cerbydau a chyfarpar, Dylunio, Adeiladu a Gweithredu Tollau Cysgod, gwaith cynnal a chadw rheolaidd, cymorth i raglenni a dibrisiant a diffyg.

Sicrhawyd gostyngiad net o £11.1 miliwn i gyd yn rhan o broses ailflaenoriaethu'r gyllideb. Trosglwyddwyd cyllid o fewn y Grwp Trafnidiaeth er mwyn talu costau ychwanegol yn gysylltiedig â thaliadau bonws perfformiad Trenau Arriva Cymru a'r galw cynyddol gan awdurdodau lleol am brosiectau seilwaith trafnidiaeth leol.

### 9. Dibrisiant a Diffyg – Ffyrdd

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Roads Depreciation & Impairments** | **250,168** | **250,168** | **250,168** | **250,168** |

Mae'r gyllideb hon nad yw'n arian parod yn adlewyrchu costau traul ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd.

### 10. Gwella'r Rhwydwaith Cefnffyrdd

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella'r Rhwydwaith Cefnffyrdd** | **76,805** | **90,911** | **90,866** | **90,868** |

Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn ceisio gwella ac uwchraddio'r rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy.

Mae cyllidebau cyfalaf yn cynnwys rheoli a darparu'r Flaenraglen Cefnffyrdd o gynlluniau adeiladu a gwella newydd; rhaglen o gynlluniau a ddyluniwyd i wella rhannau is-safonol o gefnffyrdd drwy uwchraddio'u nodweddion; rhaglen o gynlluniau Gwneud Defnydd Gwell i wella'r cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli er mwyn gwella'r defnydd o'r rhwydwaith ffyrdd. Mae cyllidebau refeniw yn darparu ar gyfer gweithgareddau sy'n helpu i gyflawni'r rhaglen gan gynnwys ymchwiliadau cyhoeddus, cyngor gan ymgynghorwyr, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau prisio.

### 11. Gwella Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr** | **187,789** | **190,483** | **200,291** | **209,088** |

Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn ceisio gwella a moderneiddio seilwaith rheilffyrdd a gwasanaethau trên ac awyr Cymru. Mae'n cynnwys cyllid cyfalaf ar gyfer buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd (drwy'r sector cyhoeddus a phreifat) gan gynnwys prosiectau seilwaith mawr, gwelliannau i orsafoedd a chledrau a gwelliannau diogelwch, yn ogystal â chyllid refeniw i helpu gyda chostau gweithredu trenau gan gynnwys Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a weithredir gan Drenau Arriva Cymru, a chymorth refeniw i wella gwasanaethau.

Darparwyd £8.5 miliwn ychwanegol o gyllid trwy broses cynllunio cyllidebau Llywodraeth y Cynulliad a throsglwyddwyd £1.3 miliwn ychwanegol i'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn trwy'r ymarfer ailflaenoriaethu. Darparwyd hyn yn bennaf i helpu i dalu costau cynyddol taliadau perfformiad Trenau Arriva Cymru a gwelliannau i wasanaethau rheilffyrdd megis rhaglen atgyfnerthu'r Cymoedd.

### 12. Gwella Ffyrdd Lleol

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella Ffyrdd Lleol** | **100,192** | **100,515** | **100,515** | **100,515** |

Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i wella'r rhwydwaith ffyrdd lleol mewn ffordd gynaliadwy gan ystyried anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.

### 13. Gwella Integreiddio a Darparu Trafnidiaeth Leol

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella Integreiddio a Darparu Trafnidiaeth Leol** | **107,779** | **104,822** | **118,945** | **122,515** |

Bydd cyllidebau cyfalaf, ar ffurf Grantiau Trafnidiaeth i awdurdodau lleol, yn ariannu gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth lleol gan gynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau, cyfnewidfeydd trafnidiaeth, cynlluniau parcio a theithio a gwybodaeth amser real i deithwyr.

Bydd cyllid refeniw yn helpu pobl dros 60 oed a phobl anabl i deithio am ddim ar fysiau. Caiff mwy o gymorth ei gynnig i wasanaethau cymdeithasol angenrheidiol trwy roi ad-daliad i weithredwyr bysiau ar y dreth tanwydd. Rhoddir cyllid hefyd i alluogi cydgysylltwyr y consortia trafnidiaeth rhanbarthol i helpu cyflogwyr mawr i baratoi cynlluniau teithio ac i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

Darparwyd £6.5 miliwn o gyllid ychwanegol hefyd drwy gyllideb ddrafft 2009-10 ac ailflaenoriaethwyd £7.6 miliwn arall ers cyhoeddi'r gyllideb derfynol yn Ionawr 2008. Diben y cyllid hwn yn bennaf yw cyfrannu at gost gynyddol Tocynnau Teithio Rhatach a'r galw ychwanegol am brosiectau seilwaith trafnidiaeth leol.

## 14. Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd** | **24,264** | **21,281** | **24,308** | **24,320** |

Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn ymwneud â cheisio cyflawni targedau 2010 y DU i leihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu a'u lladd mewn damweiniau ffyrdd. Mae'r cynlluniau a'r mentrau yn cyllido'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru ac maent yn cynnwys grantiau i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith peirianegol, addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd, a rhaglen ar gyfer cynlluniau gwella diogelwch lleol ar y rhwydwaith cefnffyrdd.

Darparwyd £3 miliwn ychwanegol ar gyfer y Maes Rhaglenni Gwariant hwn trwy'r ymarfer ailflaenoriaethu, yn bennaf i gydnabod costau cynyddol rhaglen wedi'i blaenoriaethu o gynlluniau arwynebu a chynlluniau diogelwch cymunedol a lleol.

## 15. Gwella Ansawdd yr Amgylchedd Lleol

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella Ansawdd yr Amgylchedd Lleol** | **1,000** | **1,648** | **1,005** | **1,005** |

Mae'n darparu cyllid ar gyfer cynlluniau i leihau effeithiau swn gormodol o gefnffyrdd. Gwneir hyn drwy osod arwynebau swn isel, neu rwystrau swn, neu gyfuniad o'r ddau.

Mae gostyngiad bach o £0.6 miliwn yn y cyllid er mwyn cyfrannu at feysydd eraill yn y Prif Grwp Gwariant lle mae pwysau ar refeniw.

## 16. Hybu Cerdded a Seic

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllidebau Diwygiedig 2008-09 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2009-10 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Hybu Cerdded a Seiclo** | **11,277** | **7,992** | **11,303** | **11,303** |

Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn dilyn Strategaeth Cerdded a Seiclo Llywodraeth y Cynulliad (2003) ac yn ceisio cynyddu nifer y bobl sy'n cerdded ac yn seiclo – yn enwedig ar deithiau byr – er mwyn hybu iechyd a gwarchod yr amgylchedd.

Trosglwyddwyd £3.3 miliwn i'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn trwy'r ymarfer ailflaenoriaethu er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gyfer ymrwymiadau Gweinidogol blaenorol ar 'lwybrau diogel mewn cymunedau'.